

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon a gynhaliwyd 1af  
Tachwedd 2017 am 7.00 o'r gloch.**

**Minutes of Llangoed + Penmon Community Council meeting held on 1st November  
2017 at 7.00pm.**

**1. Croeso/Welcome** - Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol. / *Meeting was opened by the Chairperson by extending a warm welcome to everyone in attendance.*

**Presennol/Present** - Cynghorwyr Keith Williams (Cadeirydd), Dafydd Roberts, Scott Paterson, Mary Ellis, Alan Owen, Roger Davies, Ann Sutton, Marco Ricci, Wyn Hughes, Carwyn Jones a Geraint Parry (Clerc).

**Nodyn** - oedd 6 aelod o'r cyhoedd yn bresennol i drafod symudiad arfaethedig y swing rhaff ar goeden ger Bont y Rhyd

**Note** - *there was 6 members of the public present to discuss the proposed removal of the rope swing on a tree by Bont y Rhyd*

**2. Ymddiheuriadau/Apologies:-** Cyng. L Davies a Cyng. D Jones

**3. Cofnodion/Minutes**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd o Hydref fel rhai cywir gan Cyng. W Hughes, eiliwyd gan Cyng. D Roberts. / *Minutes of the previous meeting held on 4<sup>th</sup> October were accepted as accurate by Clr. W Hughes, seconded by Clr.D Roberts.*

**4. Datgan Diddordeb/Declaration of interest**

- Cyng. M Ellis yn datgan diddordeb ar eitem 9 - drafodaeth Grŵp Cymunedol oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y grŵp. / *Clr. M Ellis declared an interest on item 9 - discussion about the Community Group - is a member of the group committee.*
- Cyng. A Owen yn datgan diddordeb ar eitem 8 - trafodaeth Pwyllgor y Neuadd – aelod o Pwyllgor y Neuadd / *Clr. A Owen declared an interest on item 8 - discussion about the Village Hall – is a member of the Village Hall committee.*

**5. Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**

- 5.1 Defibrillator - Esboniodd y Clerc y dylai'r blwch gael ei osod wythnos yn dechrau 6/11 / *Defibrillator - Clerk explained that the box should be fitted week beginning 6/11*
- 5.2 Trefi Taclus – mae'r Cyngor Sir wedi ail-drefnu'r cynllun tan fis Mawrth oherwydd diffyg gwirfoddolwyr / *Tidy Towns - the County Council have rescheduled the scheme until March due to a lack of volunteers.*
- 5.3 Torri coed ger Warchodfa Natur y Wern - gwaith wedi ei gwblhau / *Trees by the Nature Reserve of the Wern – work has been completed.*
- 5.4 Ffordd rhwng Gatehouse a Tan Ffordd mewn cyflwr gwael, Clerc wedi ysgrifennu i Adran Priffyrdd / *Road between Gatehouse and Tan Ffordd is in poor condition, Clerk has written to the Highways Department*
- 5.5 Gysgodfa'n Bws gyferbyn ar Hen Ysgol wedi'i gracio – i drafod ymhellach / *Bus Shelter opposite the Old School is cracked - to be discussed further.*
- 5.6 Cysgodfa'n Bws ym Mhont y Rhyd - llunwyd cynllun gwaith i liniaru'r dŵr o'r sbring sy'n rhedeg drwy'r gysgodfa'n o'r maes parcio. Disgwyl dyfyniad am y gwaith. / *Bus Shelter at Bont y Rhyd - plan of work has been put together to alleviate the water from the spring that's running through the shelter from the car park. Quote for the work to be submitted.*
- 5.7 Dŵr sy'n gollwng ar allt Glanrafon gydag Adran Priffyrdd - mae'r Cyngor Sir wedi cyflwyno cais am arian i fynd ar afael ar fater y draeniad ar yr allt / *Water leaking on Glanrafon Hill - County Council has submitted an application for funding to address the issue of the drainage on the hill.*
- 5.8 Bocs Halen ger fferm Bryn Mawr a bocs arall ger Teras Coedwig - disgwyl gwybodaeth bellach gan Adran Priffyrdd yn gwerthuso cyflwr y blychau nawr yn barod ar gyfer y gaeaf. / *Salt container by Bryn Mawr Farm and additional box by Coedwig Terrace – awaiting decision from the Highways department.*
- 5.9 Drych traffig ar y ffordd ger cysgodfa'n bws ym Mhenmon – disgwyl ymateb gan Adran Priffyrdd / *Road traffic mirror by the Bus Shelter in Penmon – awaiting response from the Highways Department*
- 5.10 Mae gwaith wedi dechrau ar y cynllun lliniaru llifogydd gan gontractwr sy'n gweithio ar ran y Cyngor Sir. Mae draeniau cyfagos wedi cael eu hail agor ac mae ochrau'r afon wedi cael ei dorri /

*Work has started on the flood alleviation scheme by the contractor working on behalf of the County Council. Nearby drains have been re-opened and the sides of the river have been cut.*

## **6. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**

*Dim cais cynllunio i drafod / No planning application to discuss*

### **Penderfyniad / Decision**

- 35C283A – Cae Person Uchaf, cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – wedi ei caniatáu / *Full application for alterations and extensions – has been granted*
- 35C318A – cyferbyn a Wyndley, cais llawn ar gyfer creu mynedfa amaethyddol ar dir – wedi ei wrthod / *Full application for the creation of an agricultural access on land opposite Wyndley – has been refused*
- 35C286A – Swn y Don, Penmon – cais llawn ar gyfer codi modurdy preifat ar wahan – wedi ei caniatáu / *Full application for the erection of a detached private garage – has been granted*
- 35C327 - Aber Lleiniog, Penmon - cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i tri uned gwyliau ynghyd ag addasu'r fynedfa - wedi ei wrthod / *Full application for the conversion of an outbuilding into three holiday units together with alterations to the vehicular access and driveway - has been refused*

## **7. Adroddiad gan Cyng. Carwyn Jones / Report by Clr. Carwyn Jones**

- Eglurodd ei fod wedi'i benodi i Bwyllgor Gwaith y Cyngor Sir ac yn deilydd portffolio i Datblygu Economaidd a phrosiectau mawr/ *Explained that he has now been appointed to the County Council Executive committee and is portfolio holder for Economic Development and major Projects*
- Ymwelodd â Llundain yn ddiweddar ynglŷn â phrosiect Wylfa / *Recently visited London with regard to the Wylfa project*
- Penderfynwyd dau fater mawr gan y Pwyllgor Gwaith - a) Mynd i fewn i ymgynhoriad statudol ar y opsiwn i gau Ysgol Biwmares ac adleoli'r plant naill yn Llandegfan neu Llangoed. Anogir pawb i ymateb gyda ei teimladau. b) Cynllun Gofal ychwanegol - Ymgynhoriad ar ystyriaeth gan y Cyngor Sir i adeiladu tua 39 o unedau ar safle Ysgol Biwmares. Anogwyd pawb i ymateb / *Two major decisions have recently been passed by the Executive Committee, a) to enter statutory consultation on the option to close Beaumaris School and relocating the children at either Llandegfan o'r Llangoed. Everyone encouraged to respond and make feelings known. b) Extra Care Scheme - enter consultation on a consideration by the County Council to build approximately 39 units on the Beaumaris School site. Everyone encouraged to respond.*
- Wedi trefnu cyfarfod gyda pherchnogion hen safle Lairds i drafod ei gynllunio am y dyfodol / *Have arranged a meeting with the owners of the old Lairds site to discuss their future plans.*

## **8. Neuadd y Pentre' / Village Hall**

- Digwyddiad Calan Gaeaf wedi ail-archebu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Adroddwyd bod Neuadd y Pentref yn lleoliad delfrydol ar gyfer y digwyddiad yma / *Halloween event has been re-booked for next year. The Village Hall was reported to be a ideal venue for this event.*

## **9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed / Community Group**

- Digwyddiad calan Gaeaf ar 28/10 yn Neuadd y Pentre' wedi cael ei mwynhau gan bawb / *Halloween event at the Village Hall on the 28/10 was well attended and enjoyed by all.*

## **10. Tir Commin / Common Land**

- Eglurodd y Clerc fod cyfarfod safle wedi cymryd lle ar 14/10/17 gyda' Clerc, Cyng. M Ellis ac D Jones yn bresennol gyda'r contractwr ynglŷn â thorri'r llwybr. Awgrymwyd y dylai dau gylch o dorri fod yn ddigonol ac i'w gynnal mis Ebrill a mis Mehefin. / *Clerk explained that a site meeting had taken place on the on the 14/10/17 with the Clerk, Clr. M Ellis, D Jones present with the contractor regarding the cutting of a path. It was suggested that two cutting cycles should be sufficient, to take place in April and June.*
- Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn gohebiaeth gan y cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran Mr Woods, gan ddweud bod tystiolaeth wedi'i anfon at ein cyfreithwyr. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at ein cyfreithwyr ynghylch y dystiolaeth yma, nid dderbyniwyd ateb hyd yn hyn. / *Clerk explained that he has received correspondence from the solicitors acting on behalf of Mr Woods, saying that evidence has been sent to our solicitors. Clerk has written to our solicitors regarding this evidence, no reply has been received to date.*

**11. Cyfrifon/Accounts**

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- J Bentley - £720.00
- Eglwys St Cawrdaf Church - £350.00
- Eglwys St Seiriol Church - £350.00
- Capel Tŷ Rhys Chapel - £350.00
- Underhill & Sharp - £1,140

Clerc yn egluro incwm a gwariant hyd at ddiwedd chwarter 2 / *Clerk explained income and expenditure up the end of quarter 2*

**12. Gohebiaeth/Correspondence**

- Cyngor Sir – atal llifogydd / *County Council – flood preventative work*
- Cyngor Dref Biwmares / *Beaumaris Town Council*
- Brodie & Co - tir comin y Marian / *Common land of the Marian*

**13. UFA/AOB:**

- 14.1 Swing Rhaff - cafwyd dadl fywiog ynglŷn â'i ddiogelwch a'i ddefnydd. Esboniodd Cyng. K Williams y cefndir i'r penderfyniad gan y Cyngor Cymuned i osod arwydd i symud y swing rhaff. Cymerodd aelodau'r cyhoedd ran i gyflwyno'u barn a'u teimladau tuag at y cam yma. Eglurodd y Clerc yr ateb gan ein cwmni yswiriant a chyngor gan Un Llais Cymru. Cynigwyd, eiliwyd a gludwyd gan bleidlais fwyafrif i dynnu'r swing rhaff dros dro ac edrych ar opsiynau eraill / *Rope Swing - a lively debate took place regarding its safety and use. Clr. K Williams explained the background the Community Council's decision to place a sign to remove the rope swing. Members of the Public took part to present their views and feelings towards this action. The Clerk explained the reply received from our insurance company and advice from One Voice Wales. It was proposed, seconded and carried by majority vote to temporarily remove the rope swing and look at other options.*
- 14.2 Derbyniwyd gwahoddiad i'r Cadeirydd gan Gyngor Tref Biwmares i fynychu'r arddangosfa Tân Gwyllt ar 4/11/17- yn anffodus oherwydd ymrwymadau eraill - ddim yn gallu mynychu / *Invitation for the Chairman was received from Beaumaris Town Council to attend the Fireworks display on 4/11/17 - unfortunately due to other commitments - is unable to attend*
- 14.3 Derbyniwyd gwahoddiad hefyd i'r Cadeirydd fynychu digwyddiad Fictoraidd ar 25/11/ / *Also received invitation for the Chairperson to attend the Victorian event on the 25/11*
- 14.4 Mae Comisiwn Ffiniau Cymru wedi cyhoeddi ei gynigion diwygiedig ar gyfer newidiadau i'r etholaethau Seneddol yng Nghymru. Pob cyflwyniad i'w gyflwyno erbyn 11/12/17 / *Boundary Commission Wales has published its revised proposals for changes to the Parliamentary constituencies in Wales. All representations to be submitted by 11/12/17*
- 14.5 Mae'r gwrych ger Dalar Las wedi cael ei dorri gyda'r toriadau wedi ei gadael ar ochr y palmant cul a fydd yn rhwystro'r cylfert cyfagos. Dywedwyd hefyd bod person wedi dod oddi wrth y bws ac wedi agor ei choes oherwydd y toriadau / *Hedge at Dalar Las has been cut with the cuttings left at the side of the narrow pavement which will block the nearby gully. It was also reported that a person getting off a bus nearby received a cut to their leg from the cuttings.*
- 14.6 Penderfynwyd yn unfrydol i gynnal ein cyfarfod mis Ionawr ar 10/01/18 / *It was unanimously decided to hold our January meeting on the 10/01/18*

**14. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:50 o'r gloch. Cyfarfod nesaf 06/12/17

*There was no further business to discuss. The Chairperson thanked everyone for their contribution. Meeting came to an end at 9:50pm. Next meeting 06/12/17*

Llofnod y Cadeirydd / *Chairman Signature*  
K. Williams

Dyddiad/Date